Arweiniad...
A Guide To...

Cynllun Pensiynau Clerigion Yr Eglwys Yng Nghymru

Arweiniad i'ch Pensiwn

The Church In Wales Clergy Pensions Scheme

Guide To Your Pension

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

Cynllun Pensiynau Clerigion Yr Eglwys Yng Nghymru

Arweiniad i'ch Pensiwn

The Church In Wales Clergy Pensions Scheme

Guide To Your Pension

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Cyflwyniad

Bwriad yr arweiniad hwn yw darparu amlinelliad bras o'r budd-daliadau a fydd yn daladwy i chwi, neu i'ch priod, pan fyddwch yn ymddeol, yn marw neu'n gadael gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru. Nid yw'r wybodaeth hon yn cyflwyno hawliau nac yn cynnig pensiwn na budd-daliadau eraill.

Mae'r arweiniad yn cynnwys yr atebion a roddir i'r cwestiynau mwyaf cyffredin am y Cynllun Pensiwn Clerigion.

Nid yw'n ymarferol cynnwys pob rheol a rheoliad sy'n ymwneud â'ch pensiwn yn yr arweiniad hwn. Am ragor o fanylion, dylech ddarllen Rhan II o Gynllun Cynnal y Weinidogaeth yng Nghyfrol II o Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru. Os, ar ôl darllen yr arweiniad hwn a'r Cyfansoddiad, yr ydych yn dal i fod yn ansicr pa fudd-daliadau sy'n ddyledus i chwi, dylech gysylltu ag Adran Gyflogau Corff y Cynrychiolwyr lle y bydd rhywun yn barod iawn i'ch helpu.

1. Aelodaeth a Gwasanaeth Pensiynadwy

A yw fy ngwasanaeth yn bensiynadwy?

Fel rheol, os ydych yn weinidog cyflogedig llawn amser yn yr Eglwys yng Nghymru, bydd eich gwaith yn bensiynadwy at ddibenion pensiwn yr Eglwys yng Nghymru. Bydd gwasanaethau eraill a nodir yn y Cyfansoddiad hefyd yn bensiynadwy, ar yr amod nad yw'r gwasanaeth dan sylw yn rhoi i chwi hawliau pensiwn o dan gynllun arall.

Hwyrach y bydd gwasanaeth cyflogedig rhan-amser yn bensiynadwy hefyd. Gall staff yr Adran Gyflogau gadarnhau statws pensiynadwy gwasanaeth o'r fath.

Hwyrach y bydd mathau eraill o wasanaeth yn bensiynadwy trwy gytundeb penodol â phwyllgor perthnasol Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a, lle bo angen, gyda chydsyniad ysgrifenedig Esgob yr Esgobaeth.

Yn yr arweiniad hwn, cyfeirir at y rhai hynny sy'n bensiynadwy o dan reoliadau'r cynllun fel 'Aelodau'r Cynllun'.

Beth yw isafswm ac uchafswm cyfnodau gwasanaeth pensiynadwy?

Ar hyn o bryd, isafswm y cyfnod gwasanaeth sydd ei angen er mwyn bod yn gymwys ar gyfer pensiwn yw dwy flynedd (nid gwasanaeth di-dor o reidrwydd), a'r uchafswm yw 40 mlynedd.

Oes rhaid i mi fod yn aelod o Gynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru?

Nac oes. Ers 6 Ebrill 1988, ni all aelodaeth o gynllun pensiwn galwedigaethol cyflogwr fod yn orfodol. Fodd bynnag, gan fod Cynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys yswiriant bywyd, yn anghyfrannol, ni ddisgwylir i'r rhai hynny sy'n gymwys i fod yn aelodau beidio ag ymuno â'r cynllun a gwneud trefniadau amgen.

Nid yw'n bosibl cronni budd-daliadau yng Nghynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru tra byddwch yn cyfrannu at drefniant Pensiwn Personol, ac eithrio Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol neu Bensiwn Cyfranddalwyr.

Os ydych yn ystyried peidio â bod yn rhan o Gynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru, dylech gael cyngor ariannol annibynnol a rhoi gwybod mewn ysgrifen i ni am eich bwriad.

Hoffwn gynyddu'r budd-daliadau pensiwn y byddaf yn eu derbyn pan fyddaf yn ymddeol o'r Eglwys yng Nghymru. A yw hyn yn bosibl?

Ydyw. Gallwch wneud hyn trwy wneud taliadau naill ai i Gynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Clerigion trwy'r Grŵp Yswiriant Eglwysig, i gynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol gydag unrhyw gwmni pensiwn neu i bensiwn cyfranddaliwr. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Clerigion, cysylltwch â'r Adran Gyflogau.

Introduction

This guide is intended to give you a broad outline of the benefits that will be payable to you, or your spouse, when you retire, die, or leave the ministry of the Church in Wales. The information contained in this booklet does not confer rights or represent an offer of a pension or other benefits.

The answers contained in this guide are those given to questions most frequently asked about the Clergy Pension Scheme.

It is not practical to include every rule and regulation relating to your Church in Wales pension in this guide. If more detail is required you should refer to Part II of the Maintenance of Ministry Scheme in Volume II of the Constitution of the Church in Wales, where you should find the information you require. If after reading this guide and referring to the Constitution you are still not sure of the benefits due to you, then please contact the Stipends Section of the Representative Body where somebody will be happy to help you.

1. Membership and Pensionable Service

Is my service pensionable?

If you are in full-time stipendiary ministry within the Province of Wales then your work will usually count as pensionable for Church in Wales pension purposes. Other service, as prescribed in the Constitution, will also count as pensionable so long as such service does not qualify for pension rights within another scheme.

Part-time stipendiary service may also count as pensionable. The pensionable status of such service can be confirmed by staff in the Stipends Section.

Other service may qualify as pensionable by specific agreement with the relevant committee of the Representative Body of the Church in Wales, and where necessary with the written agreement of the Diocesan Bishop.

Those who are pensionable under the regulations of the scheme are termed as "Scheme Members" throughout this guide.

What are the minimum and maximum periods of pensionable service?

The current minimum period of service required to qualify for a pension is two years (not necessarily continuous), and the maximum is 40 years.

Do I have to become a member of the Church in Wales Pension Scheme?

No. Since 6 April 1988 membership of an employer's occupational pension scheme cannot be compulsory. However, as the Church in Wales Pension Scheme is non-contributory, including life assurance cover, it is not expected that those who qualify for membership would opt out and make alternative arrangements.

It is not possible to accrue benefits within the Church in Wales Pension Scheme while you are contributing to a Personal Pension arrangement, other than to an Additional Voluntary Contribution Scheme or a Stakeholder Pension.

If you are considering opting out of the Church in Wales Pension Scheme you should seek independent financial advice, and notify us of your intention in writing.

I would like to enhance the pension benefits that I will receive when I retire from the Church in Wales. Is this possible?

Yes. This can be done by making payments to either the Clergy Additional Voluntary Contribution Scheme via the Ecclesiastical Insurance Group, or a freestanding additional voluntary contribution scheme with any pension company, or to a stakeholder pension. Contact the Stipends Section if you have a query about the Clergy Additional Voluntary Contribution Scheme.

A allaf drosglwyddo hawliau pensiwn o gynllun pensiwn arall i Gynllun yr Eglwys yng Nghymru?

Mae gwybodaeth am drosglwyddo hawliau pensiwn i Gynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru yn Adran 7 yr arweiniad hwn.

2. Ariannu'r Cynllun

Oes rhaid imi wneud unrhyw gyfraniadau er mwyn cael pensiwn yr Eglwys yng Nghymru?

Nac oes. Mae'r Cynllun yn anghyfrannol, felly nid oes rhaid i chwi wneud unrhyw gyfraniadau tuag at yr un o'r budd-daliadau a ddarperir gan y Cynllun ar hyn o bryd.

Sut y mae'r Cynllun yn cael ei ariannu?

Ariennir y Cynllun gan Gorff y Cynrychiolwyr a'r Esgobaethau ar sail cyngor actiwari annibynnol.

3. Budd-Daliadau Ymddeol

Beth fydd fy oedran pan fyddaf yn derbyn Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru?

Gallwch ymddeol o'r Eglwys yng Nghymru a derbyn pensiwn ar unrhyw adeg rhwng 65 a 70 mlwydd oed. Rhaid i'r Esgob gael o leiaf dri mis o rybudd ysgrifenedig o'ch bwriad i ymddeol. Os byddwch yn cwblhau 40 mlynedd o wasanaeth cyn y byddwch yn 65 oed, gweler adran 5.

Pa fudd-daliadau y byddaf yn eu derbyn?

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn derbyn cyfandaliad pensiwn a phensiwn blynyddol.

Cyfrifir y budd-daliadau hyn ar sail cyfanswm y gwasanaeth pensiynadwy a gwblhawyd a'ch cyflog pensiynadwy.

Sut yr hysbysir fi beth fydd fy mudd-daliadau pensiwn?

O 2010 bydd Corff y Cynrychiolwyr yn anfon amcangyfrif blynyddol o'r budd-daliadau pensiwn i bob aelod gweithredol o'r Cynllun Pensiwn Clerigion.

Cyn blwyddyn eich ymddeoliad bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu ar eich cais un cyfrifiad pensiwn am ddim, yn cynnwys y dewis sydd ar gael o fudd-daliadau hyblyg (hynny yw, cyfandaliad mwy a phensiwn llai).

Ym mlwyddyn eich ymddeoliad bydd Corff y Cynrychiolwyr yn darparu am ddim gyfrifiad pensiwn fel yn y paragraff uchod.

Darperir ar eich cais un cyfrifiad gwerth trosglwyddo am ddim.

Codir tâl o £200 am bob cais arall am ddatganiadau budd-daliadau pensiwn, yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth at ysgariad.

Pensiwn

Eich cyflog pensiynadwy terfynol fydd cyflog y swydd bensiynadwy uchaf a oedd gennych yn y 5 mynedd cyn ymddeol.

Dyma'r swyddi pensiynadwy:

- Archesgob.
- Esgob Esgobaeth.
- Esgob Cynorthwyol.
- Deon.
- Archddiacon.
- Periglor.

Yn achos y rhai hynny a benodwyd i swyddi cyflogedig nas rhestrir uchod, bydd y budd-daliadau pensiwn yn seiliedig ar swydd bensiynadwy Periglor. Os ydych yn ansicr ynglŷn â statws pensiynadwy eich swydd, cysylltwch â'r Adran Gyflogau.

Gwasanaeth cyn 1 Ionawr 2006

Am wasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ionawr 2006, byddwch yn cronni budd-daliadau pensiwn ar gyfradd o 60% o'ch cyflog pensiynadwy terfynol am 40 mlynedd o wasanaeth.

Gwasanaeth ar ôl 1 Ionawr 2006

Am wasanaeth pensiynadwy yn dilyn gwasanaeth cyn 1 Ionawr 2006 yn ddi-dor, byddwch yn cronni budd-daliadau pensiwn ar gyfradd o 60% o'ch cyflog pensiynadwy terfynol am 40 mlynedd o wasanaeth.

Am wasanaeth pensiynadwy a gychwynnodd ar ôl 1 Ionawr 2006, byddwch yn cronni budd-daliadau pensiwn ar gyfradd o 50% o'ch cyflog pensiynadwy terfynol am 40 mlynedd o wasanaeth.

Os byddwch yn dychwelyd i wasanaeth pensiynadwy ar ôl 1 Ionawr 2006, bydddwch yn cronni budd-daliadau pensiwn am wasanaeth ar ôl Ionawr 2006 ar gyfradd o 50% o'ch cyflog pensiynadwy terfynol am 40 mlynedd o wasanaeth.

Can I transfer pension rights from another pension scheme to the Church in Wales Scheme?

Information regarding pension transfers to and from the Church in Wales Pension Scheme is contained in Section 7 of this guide.

2. Scheme Funding

Do I have to make any contributions in order to obtain a Church in Wales pension?

No. The Scheme is non-contributory, and therefore no contributions are currently required from you towards any of the benefits provided by the Scheme.

How is the Scheme funded?

The Scheme is funded by the Representative Body and Dioceses on the basis of independent actuarial advice.

3. Retirement Benefits

At what age will I normally receive my Church in Wales Pension?

You may retire from the Church in Wales and receive a pension at any time between the ages of 65 and 70. The Bishop must be given at least three months' prior notice in writing of your intention to retire. If you will complete 40 years of service before the age of 65 see section 5.

What benefits will I receive?

Upon retirement you will receive a pension lump sum and an annual pension. These benefits will be calculated with reference to the amount of pensionable service completed and your pensionable stipend.

How will I be advised how much my pension benefits will be?

From 2010 the Representative Body of the Church in Wales is sending an annual estimated pension benefits statement to each active member of the Clergy Pension Scheme.

Prior to the year of your retirement the Representative Body will, on request, provide free of charge one pension calculation including the option as provided for under the arrangements for flexible benefits on retirement(i.e. a larger lump sum and reduced pension)

In the year in which you retire the Representative Body will provide free of charge a pension calculation as in the paragraph above.

One transfer value calculation will be provided free on request.

A charge of £200 will be applied for all other requests for pension benefit statements including divorce information requests

Pension

Your final pensionable stipend is the stipend of the highest pensionable office held in the 5 years preceding retirement.

The pensionable offices are:

- Archbishop.
- Diocesan Bishop.
- Assistant Bishop.
- Dean.
- Archdeacon.
- Incumbent.

For those appointed to offices not listed above, pension benefits will be based on the pensionable office of an Incumbent.

Service before 1 January 2006

For pensionable service before 1 January 2006 you will accrue pension benefits at a rate of 60% of your final pensionable stipend for 40 years of service.

Service after 1 January 2006

For pensionable service continuous with service before 1 January 2006 you will accrue pension benefits at a rate of 60% of your final pensionable stipend for 40 years of service.

For pensionable service commencing after 1 January 2006 you will accrue pension benefits at a rate of 50% of your final pensionable stipend for 40 years of service.

If you return to pensionable service after 1 January 2006 you will accrue pension benefits for service after 1 January 2006 at a rate of 50% of your final pensionable stipend for 40 years of service.

Cyfandaliad Pensiwn

Os byddwch yn ymddeol gydag uchafswm o 40 mlynedd o wasanaeth, byddwch yn derbyn cyfandaliad pensiwn di-dreth oddeutu 1½ gwaith yn fwy na chyflog y swydd bensiynadwy uchaf a oedd gennych yn y 5 mlynedd cyn ymddeol.

Sut y byddwch yn cyfrifo fy mhensiwn a'm cyfandaliad pensiwn os bydd gennyf lai na 40 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy?

Am wasanaeth pensiynadwy sy'n llai na'r uchafswm o 40 mlynedd, gostyngir y pensiwn a'r cyfandaliad pensiwn yn unol â hyd y gwasanaeth.

Sut y bydd gwasanaeth rhan-amser yn effeithio ar fy mhensiwn a'm cyfandaliad pensiwn?

Telir pensiynau a chyfandaliadau pensiwn am wasanaeth cyflogedig rhan-amser yn unol â chanran isafswm cyflog y swydd bensiynadwy briodol a delir yn ystod gwasanaeth o'r fath.

A fyddaf yn derbyn fy mhensiwn a'm cyfandaliad pensiwn yn awtomatig pan fyddaf yn ymddeol?

Na fyddwch. Rhaid ichwi gwblhau ffurflen gais am bensiwn clerigion a datganiad aelod o ddefnydd lwfans oes (gweler adran 8) cyn y telir eich pensiwn a'ch cyfandaliad pensiwn. Mae'r ffurflenni i'w cael oddi wrth Gorff y Cynrychiolwyr ond, yn y rhan fwyaf o achosion, fe'u hanfonir atoch pan fydd Corff y Cynrychiolwyr yn derbyn hysbysiad gan eich Esgob o'ch bwriad i ymdddeol.

Dylai unrhyw un sy'n hawlio budd-daliadau pensiwn a gadwyd ddarllen adran 7 yr arweiniad hwn.

A allaf gynyddu swm fy nghyfandaliad pensiwn?

Gallwch wneud cais am gyfandaliad pensiwn uwch, a fydd yn golygu lleihad yn y pensiwn blynyddol. Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn penderfynu o bryd i'w gilydd ar swm y cyfandaliad pensiwn uwch a'r lleihad yn y pensiwn blynyddol. Lleiheir y pensiwn am yr holl gyfnod y bydd yn daladwy, a lleiheir hefyd y pensiwn arfaethedig i'r priod a fydd yn goroesi.

4. Cynnydd yn y Pensiwn

Sut a pha bryd y bydd fy mhensiwn yn cynyddu?

Caiff pensiynau clerigion a gwŷr a gwragedd clerigion eu hadolygu'n flynyddol o 1 Ionawr.

Am bob gwasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ionawr 2006, bydd pensiynau'n cynyddu'n flynyddol fesul yr un ganran â chyflog periglor.

Am wasanaeth pensiynadwy ar ôl 31 Rhagfyr 2005, bydd pensiynau'n cynyddu'n flynyddol yn unol â chanran y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthu dros y flwyddyn flaenorol, hyd at uchafswm o 5%.

5. Ymddeol yn Gynnar

A gaf fi dderbyn budd-daliadau pensiwn gan yr Eglwys yng Nghymru cyn y byddaf yn 65 oed?

Gallwch ymddeol o'r Eglwys yng Nghymru a derbyn pensiwn cyn y byddwch yn 65 oed cyn belled â'ch bod wedi cwblhau 40 mlynedd o wasaneth pensiynadwy.

Gallwch ymddiswyddo o wasanaeth pensiynadwy yr Eglwys yng Nghymru cyn y byddwch yn 65 oed. Cedwir eich budd-daliadau yn y Cynllun nes y gwnewch gais amdanynt pan fyddwch yn 65 oed, a byddant yn cynyddu o 5%, neu'n unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthu, pa un bynnag yw'r lleiaf, yn flynyddol.

Gallwch ymddeol o'r weinidogaeth gyflogedig unwaith y byddwch yn 62 mlwydd oed. Bydd lleihad actiwaraidd yn eich pensiwn a'ch cyfandaliad pensiwn i gymryd ystyriaeth o'r ffaith bod y taliadau pensiwn yn dechrau'n fuan a'i bod yn bosibl y telir hwy am gyfnod hwy. Lleiheir y pensiwn am yr holl gyfnod y bydd yn daladwy, a lleiheir hefyd y pensiwn arfaethedig i'r priod a fydd yn goroesi.

Hwyrach y caniateir ymddeol yn gynnar ar sail analluogrwydd parhaol. Os byddwch yn ymddeol yn gynnar, telir eich pensiwn â'ch cyfandaliad pensiwn yn seiliedig ar y blynyddoedd a'r misoedd o wasanaeth a gwblhawyd hyd at ddyddiad yr ymddeoliad.

Pension lump sum

If you retire with a maximum of 40 years service you will receive a tax-free pension lump sum of approximately 1½ times the stipend of the highest pensionable office held in the 5 years preceding retirement.

How will you calculate my pension and pension lump sum if I have less than 40 years of pensionable service?

For pensionable service less than the maximum 40 years, the pension lump sum will be reduced in proportion to the length of service.

How will part time service affect my pension and pension lump sum ?

Pensions and pension lump sums for part-time stipendiary service are paid in proportion to the percentage of the minimum stipend of the appropriate pensionable office paid during such service.

Do I receive my pension and pension lump sum automatically upon retirement?

No. You must complete a clergy pension application form and a member's declaration of lifetime allowance usage (see section 8) before your pension and pension lump sum can be paid. The forms can be obtained from the Representative Body, but in most cases they will be sent to you when the Representative Body receives notification from your Bishop of your intention to retire.

Anyone claiming preserved pension benefits should refer to section 7 of this guide.

Can I increase the amount of my pension lump sum?

You may request an increased pension lump which will result in a reduction of annual pension. The amount of the increased pension lump sum and reduced pension shall be determined by the Representative Body from time to time. The pension is reduced for the whole period it is payable as is the prospective pension to the surviving spouse.

4. Pension Increases

How and when will my pension be increased?

Pensions for both clergy and clergy spouses are reviewed annually with effect from 1 January.

For all pensionable service before 1 January 2006, pensions are increased annually by the same percentage as an incumbent's stipend.

For all pensionable service after 31 December 2005, pensions are increased annually by the same percentage as the increase in the Retail Price Index over the previous year, limited to a maximum of 5%.

5. Early Retirement

Can I receive pension benefits from the Church in Wales before reaching 65?

You can retire from the Church in Wales and receive a pension before you reach the age of 65 so long as you have completed 40 years of pensionable service.

You can resign from the pensionable service of the Church in Wales before reaching the age of 65. Your benefits will be retained in the Scheme until you apply for them when you reach the age of 65, increasing annually by the lower of 5% or RPI.

You may retire from the stipendiary ministry once you have attained 62 years of age. The early release of pension and pension lump sum will be subject to actuarial reduction to take account of the early commencement of pension payments and the potentially longer period of payment. The pension is reduced for the whole period it is payable as is the prospective pension to the surviving spouse.

Early retirement on the grounds of permanent incapacity may be permitted. Your pension and lump sum gratuity would be paid upon early retirement, based upon the years and months of service completed to the date of early retirement.

Ble y gallaf ddod o hyd i'r weithdrefn ar gyfer ymddeol ar sail analluogrwydd parhaol?

Ceir manylion y weithdrefn yn y Nodyn Cyngor i Glerigion: Afiechyd ac Analluogrwydd Clerigion yn yr adran ar Wasanaethau Iechyd Galwedigaethol a ddosbarthwyd eisoes, ac sydd i'w gael ar wefan yr Eglwys yng Nghymru (www.eglwysyngnghymru.org.uk/adnoddau/clerigion/) neu oddi wrth yr adran Adnoddau Dynol yn 39 Heol y Gadeirlan.

6. Budd-daliadau Marwolaeth

Pa fudd-daliadau sy'n daladwy os byddaf yn marw cyn y byddaf yn 65 oed tra mewn gwasanaeth pensiynadwy?

O ddyddiad eich marwolaeth, bydd eich priod yn gallu derbyn pensiwn o 60% o'r pensiwn a gronnwyd gennych hyd at ddyddiad eich marwolaeth.

Hefyd, pan fydd clerigwr cyflogedig sy'n iau na 65 oed ac mewn gwasanaeth pensiynadwy yn marw, telir tâl marwolaeth mewn gwasanaeth gan Gynllun Yswiriant Tymor y Grŵp Clerigion. Gwneir y taliad yn ôl doethineb Corff y Cynrychiolwyr – i'ch priod fel rheol, neu i'ch dibynyddion ariannol. Mae'r taliad yn deirgwaith cyflog blynyddol Aelod o'r Cynllun adeg ei farwolaeth.

Pa fudd-daliadau sy'n daladwy os byddaf yn marw ar ôl 65 oed ond cyn ymddeol?

O ddyddiad eich marwolaeth, bydd eich priod yn gallu derbyn pensiwn o 60% o'r pensiwn a gronnwyd gennych hyd at ddyddiad eich marwolaeth.

Hefyd, telir cyfandaliad pensiwn yn seiliedig ar y gwasanaeth pensiynadwy a gronnwyd gennych hyd at ddyddiad eich marwolaeth i'ch priod neu i'ch ystâd. Gweler adran 3 am fanylion y cyfandaliad. Ni wneir unrhyw daliad o dan Gynllun Yswiriant Tymor y Grŵp Clerigion.

Pa fudd-daliadau sy'n daladwy os byddaf yn marw ar ôl ymddeol?

Gall eich priod dderbyn pensiwn o 60% o'r pensiwn yr oeddech chwi'n ei dderbyn adeg eich marwolaeth, cyn belled â'ch bod eich dau yn briod adeg eich ymddeoliad.

Beth sy'n digwydd os bydd fy mhriod yn ailbriodi?

Parheir i dalu'r pensiwn i'ch priod os bydd yn ailbriodi.

7. Gadael Gwasanaeth

Beth os byddaf yn gadael gwasanaeth pensiynadwy yr Eglwys yng Nghymru?

Os bydd gennych ddwy flynedd neu fwy o wasanaeth pensiynadwy pan fyddwch yn gadael gwasanaeth pensiynadwy yr Eglwys yng Nghymru, byddwch yn derbyn Tystysgrif o Fudd-daliadau Pensiwn a Gadwyd yn eich hysbysu o'r budd-daliadau a gronnwyd gennych hyd ddyddiad eich ymadawiad.

Cedwir eich budd-daliadau yng Nghynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru. Ni fydd unrhyw wasanaeth pensiynadwy ychwanegol yn cronni, ond bydd eich budd-daliadau'n cynyddu'n flynyddol yn unol â chanran y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Adwerthu dros y deuddeng mis blaenorol, hyd at uchafswm o 5%.

Gallwch ddewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd gennych i gynllun pensiwn eich cyflogwr newydd neu i gynllun pensiwn personol. Os byddwch yn dewis trosglwyddo eich budd-daliadau, dylech ofyn i weinyddwr eich cynllun newydd gysylltu â ni i gael gwerth trosglwyddo. Mae'r gwerth trosglwyddo'n cynrychioli'r budd-daliadau y byddai gennych hawl iddynt fel arall, ac fe'i cyfrifir gan actiwarïaid annibynnol. Ar ôl trosglwyddo budd-daliadau, ni fydd gennych unrhyw hawliau pensiwn yng Nghynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru.

Rhaid i chwi wneud cais am eich Pensiwn a Gadwyd pan fyddwch yn 65 mlwydd oed. Os byddwch yn ymddeol o'ch gwaith gyda'ch cyflogwr cyfredol ar sail analluogrwydd parhaol, bydd angen i chwi ddod i gytundeb â Chorff y Cynrychiolwyr mewn perthynas â thalu budd-daliadau'r pensiwn yn gynnar.

Beth os bydd gennyf lai na dwy flynedd o wasanaeth pensiynadwy pan fyddaf yn gadael?

Os byddwch yn gadael gwasanaeth pensiynadwy yr Eglwys yng Nghymru gyda rhwng 3 a 24 mis o wasanaeth pensiynadwy, gallwch ddewis trosglwyddo swm o arian parod yn cyfateb i'r budd-daliadau pensiwn a gronnwyd. Pan fyddwch yn gadael, byddwch yn cael gwerth trosglwyddo, a bydd gennych dri mis i gadarnhau a ydych am drosglwyddo'ch hawliau dan gynllun yr Eglwys yng Nghymru i drefniant pensiwn arall.

Where can I find the procedure for retirement on the grounds of permanent incapacity?

Details of the procedure are contained in the Clergy Advice Note: Clergy Ill-health and Incapacity in the section on Occupational Health Services, previously circulated, and available on the Church in Wales website (www.churchinwales.org.uk/resources/clerics/) or the Human Resources department at 39 Cathedral Road.

6. Death Benefits

What benefits are payable if I die before the age of 65, whilst still in pensionable service?

From the date of your death your spouse will be entitled to a pension of 60% of the pension earned by you to the date of your death.

In addition, a death in service payment from the Clergy Group Term Assurance Scheme is payable upon the death of a stipendiary cleric who was under the age of 65 and still in pensionable service. The payment is made at the discretion of the Representative Body, usually to your spouse, or financial dependants. The payment is three times the annual stipend of the Scheme Member at the date of death.

What benefits are payable if I die after the age of 65 but before retiring?

From the date of your death your spouse will be entitled to a pension of 60% of the pension earned by you to the date of your death.

In addition, a lump sum gratuity based upon pensionable service accrued to the date of death is payable to your spouse or estate. See section 3 for details of the lump sum gratuity. No payment under the Clergy Group Term Assurance Scheme would be made.

What benefits are payable if I die after retiring?

Your spouse will be entitled to a pension of 60% of the pension that you were receiving at the date of your death, providing you were married to that person at the date of your retirement.

What happens if my spouse remarries?

The pension would continue to be paid to your spouse if he or she remarried.

7. Leaving Service

What happens if I leave the pensionable service of the Church in Wales?

If you have two or more years of pensionable service, upon leaving the pensionable service of the Church in Wales you will be sent a Certificate of Preserved Pension Benefits advising you of the benefits earned by you to the date of leaving.

Your benefits will be retained within the Church in Wales Pension Scheme. No additional pensionable service will accrue, but your benefits will be increased annually by the same percentage as the increase in the Retail Price Index over the previous twelve months, limited to a maximum of 5%.

You may choose to have your benefits earned to date transferred to the pension scheme operated by your new employer, or to a personal pension plan. If you choose to transfer your benefits you should ask your new scheme administrator to contact us to obtain a transfer value. The transfer value represents the benefits to which you would otherwise have been entitled, and is calculated by independent actuaries. Once a transfer has been made you will no longer have any pension rights within the Church in Wales Pension Scheme.

You are required to apply for your preserved pension upon reaching the age of 65. If you are retiring from work with your current employer on grounds of permanent incapacity you will need to agree the early payment of pension benefits with the Representative Body.

What happens if I have less than two years of pensionable service when I leave?

If you have between 3 and 24 months of pensionable service and leave the pensionable service of the Church in Wales you will be given the option of a cash transfer sum in respect of accrued pension benefits. Upon leaving you will be given a transfer value, and you will have three months to confirm whether you wish to transfer your Church in Wales rights to another pension arrangement.

Beth pe bawn yn dychwelyd i wasanaethu'r Eglwys yng Nghymru?

Os byddwch yn dychwelyd i wasanaethu'r Eglwys yng Nghymru, ychwanegir unrhyw wasanaeth a gronnwyd yn flaenorol at unrhyw wasanaeth yn y dyfodol, ar yr amod na fyddwch wedi trosglwyddo eich hawliau pensiwn blaenorol i gynllun arall.

A ydyw'n bosibl trosglwyddo hawliau pensiwn o gynllun allanol i gynllun yr Eglwys yng Nghymru?

O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl trosglwyddo eich hawliau pensiwn i Gynllun yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, y mae cyfyngiadau ar y budd-daliadau y gellir eu derbyn o gynllun pensiwn eithrio fel cynllun pensiwn Eglwys Loegr. Am ragor o fanylion am y mater hwn, cysylltwch â'r Adran Gyflogau.

Fe'ch cynghorir i gael cyngor ariannol annibynnol ynglŷn â throsglwyddo hawliau pensiwn o'r naill gynllun i'r llall er mwyn diogelu eich budd-daliadau ymddeol yn y dyfodol.

8. Talu Pensiwn a Threthi

Beth yw'r sefyllfa dreth gyda'm budd-daliadau pensiwn?

- Caiff y cynllun pensiwn ei drin fel "eithriad cymeradwy" o dan Ddeddf Cyllid 1970.
- Rhaid talu treth incwm ar bob pensiwn.
- Telir pensiynau'n fisol fel ôl-daliad, a'r dreth incwm yn cael ei didynnu'n gyntaf trwy'r cynllun Talu wrth Ennill.
- Ar hyn o bryd, nid oes rhaid talu treth incwm ar y cyfandaliad.
- Fel rheol, nid oes rhaid talu treth incwm ar y taliad marwolaeth mewn gwasanaeth oddi wrth Gynllun Yswiriant Tymor y Grŵp Clerigion.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r côd treth Talu wrth Ennill a roddwyd i chwi, cysylltwch â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi, Ardal De Cymru, Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF4 5FN, rhif ffôn 0845 3003949 gan ddyfynnu'r cyfeirnod 948/R650C.
- Cyn inni dalu pensiwn neu gyfandaliad pensiwn, bydd yn rhaid inni dderbyn cadarnhad bod yr Esgob wedi caniatáu ichwi ymddeol a Ffurflen Gais Pensiwn Clerigion wedi'i chwblhau. Hefyd, er mwyn cydymffurfio â'r rheolau treth, bydd yn rhaid i chwi gwblhau Datganiad o Ddefnydd Lwfans Oes i wirio a fydd y pensiwn y bydd yr Eglwys yng Nghymru yn ei dalu i chwi o fewn eich lwfans oes. Asesir gwerth cyfanswm budd-daliadau eich cynllun pensiwn (o bob ffynhonnell) yn erbyn y lwfans oes, a chodir treth ar arian dros ben ar gyfer pob unigolyn.

9. Yswiriant Gwladol a Phensiwn y Wladwriaeth

Sut y caf wybod pa fudd-daliadau Pensiwn y Wladwriaeth y byddaf yn eu derbyn?

Nid yw Cynllun Pensiwn yr Eglwys yng Nghymru wedi'i eithrio o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (y cyfeirir ato weithiau fel pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, neu Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion (SERPS) gynt). O ganlyniad, hwyrach y bydd gennych hawl i bensiwn ychwanegol gan y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd 'oedran pensiwn statudol'.

I bennu pa fudd-daliadau Pensiwn y Wladwriaeth y bydd gennych hawl iddynt, ffoniwch Ganolfan Pensiynau'r Dyfodol y Gwasanaeth Pensiynau ar 0845 300 0168 gan ddyfynnu'ch Rhif Yswiriant Gwladaol, neu ewch i www.thepensionservice.gov.uk

Mae budd-daliadau Pensiwn y Wladwriaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Os ydych yn bwriadu derbyn swydd dramor, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn i weld sut y bydd hyn yn effeithio ar eich pensiwn oddi wrth y Wladwriaeth.

10. Gwybodaeth Bellach

Â phwy y gallaf gysylltu?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Phensiwn yr Eglwys yng Nghymru, cysylltwch yn gyntaf ag Adran Gyflogau yr Eglwys yng Nghymru yn 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF.

Ffôn: 029 2034 8200
E-bost: cyflogau@eglwysyngnghymru.org.uk
Gwefan:
http://www.eglwysyngnghymru.org.uk/adnoddau/clerigion

Os oes gennych gwestiwn neu bryder, dylech gysylltu â'r Adran Gyflogau. Os na chaiff problem ei datrys yn foddhaol wrth drafod â staff, gellir defnyddio'r weithdrefn anghydfod ffurfiol.

What if I were to return to the service of the Church in Wales?

If you were to return to the service of the Church in Wales then any service accrued previously would be added to any future service, provided you have not transferred your earlier pension rights to another scheme.

Is it possible to make a transfer of pension rights from an outside scheme into the Church in Wales Scheme?

In some circumstances it is possible to transfer your pension rights into the Church in Wales Scheme. However, there are restrictions on the benefits that may be accepted from a contracted-out pension scheme, such as the Church of England's pension scheme. You should contact the Stipends Section in order to obtain further details regarding this matter.

It is advisable to seek independent financial advice regarding the transfer of pension rights from one scheme to another in order to safeguard your future retirement benefits.

8. Payment of Pension and Taxation

What is the taxation position of my pension benefits?

- The pension scheme is treated as "exempt approved" under the Finance Act 1970.
- All pensions are subject to income tax.
- Pensions are paid monthly in arrears with deduction of income tax at source through PAYE (pay as you earn).
- The retirement pension lump sum is not currently subject to income tax.
- The death in service payment made from the Clergy Group Term Assurance Scheme is not normally subject to income tax.
- If you have any questions regarding the PAYE tax code issued to you, then you should contact HM Revenue & Customs, South Wales Area, Ty Glas, Llanishen, Cardiff CF4 5FN, telephone no: 0845 3003949 quoting reference number 948/R650C.
- Before a pension or pension lump sum can be paid we must receive the consent of your Bishop to your retirement and a completed Clergy Pension Application Form. Furthermore, to comply with the tax rules you must complete a Declaration of Lifetime Allowance Usage to check that payment of your Church in Wales pension will be within your lifetime allowance. The value of your total pension scheme benefits (from all sources) is assessed against the lifetime allowance, and there is a tax charge on excess funds for any individual.

9. National Insurance and State Pensions

How do I find out what State Pension benefits I will receive?

The Church in Wales Pension Scheme is not contracted out of the State Second Pension (S2P) (sometimes referred to as the additional State pension and previously known as the State Earnings-Related Pension Scheme (SERPS)). This means that you may currently be entitled to an additional pension from the State upon reaching 'statutory pension age'.

In order to establish what State Pension benefits you will be entitled to you should contact the Future Pensions Centre of the Pensions Service on 0845 300 0168 quoting your National Insurance Number.

Your State Pension benefits are directly linked to your National Insurance contributions, and you are advised to contact the Pensions Service if you intend taking up an appointment overseas to see how this will affect your state pension.

10. Additional Information

Who can I contact?

Your first contact regarding any queries that you may have about your Church in Wales Pension should be the Stipends Section of the Church in Wales at 39 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9XF.

Telephone: 029 2034 8200
E-mail: stipends@churchinwales.org.uk.
Website:
http://www.churchinwales.org.uk/resources/clerics

If you have a question or concern you should raise this with the Stipends Section. If a problem cannot be satisfactorily resolved in discussion with staff, then the formal dispute procedure can be used.

Beth yw'r weithdrefn anghydfod?

Os ydych yn anfodlon ag unrhyw ran o'r trefniadau pensiwn, dylech gyflwyno eich cwyn ar bapur i'r Swyddog Cyllid yn Adran Gyflogau Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd. CF11 9XF. Os na fyddwch yn fodlon ag ateb y Swyddog Cyllid, gallwch gyflwyno apêl bellach a ystyrir gan yr Ysgrifennydd Taleithiol. Bwriedir gwneud penderfyniad o fewn deufis i dderbyn y gŵyn ysgrifenedig. Pan na fydd hyn yn bosibl, anfonir yn y cyfamser ymateb yn nodi'r rheswm dros yr oedi a dyddiad disgwyliedig y penderfyniad. Os na fyddwch yn fodlon â'r penderfyniad, gallwch gyflwyno apêl i bwyllgor priodol Corff y Cynrychiolwyr yn gofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Darperir manylion pellach am y gweithdrefnau wrth roi'r ymateb cyntaf.

Beth yw'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau?

Os na fydd Corff y Cynrychiolwyr yn gallu datrys anghydfod, gallwch gysylltu a'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau. Mae'r Gwasanaeth hwn yn darparu cymorth a chyngor am ddim i aelodau'r cyhoedd sy'n cael problemau gyda phensiynau galwedigaethol. Bydd y Gwasanaeth yn ceisio datrys y broblem trwy gymodi a chyfryngu. Pan na ellir dod i gytundeb, gellir cyfeirio achosion at yr Ombwdsmon Pensiynau.

Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau yn:
11 Belgrave Road, Llundain. SW1V 1RB.
Ffôn: 0845 6012923.
Gwefan:
http://www.pensionsadvisoryservice.org.uk/Cymraeg/

Beth yw'r Ombwdsmon Pensiynau?

Mae'r Ombwdsmon Pensiynau'n ymchwilio i anghydfodau a chwynion ynglŷn â'r modd y rheolir cynlluniau pensiwn. Gosodwyd ei rôl a'i bwerau gan y Senedd, ac fe'i penodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau. Mae'n gwbl annibynnol ac yn gweithredu fel barnwr diduedd.

Mae penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau yn derfynol ac yn rhwymo'r holl bartïon y mae a wnelont â'r gŵyn neu'r anghydfod. Gellir ei orfodi yn y Llysoedd. Ni ellir ei newid ond trwy apelio at y llys priodol ar sail pwynt cyfreithiol.

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon yn
11 Belgrave Road, Llundain. SW1V 1RB.
Ffon: 0207 834 9144.
Gwefan: http://www.pensions-ombudsman.org.uk

Beth yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau?

Mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau gyfrifoldeb statudol dros ddiogelu budd-daliadau aelodau cynlluniau pensiwn sy'n seiliedig ar waith, hyrwyddo iawn weinyddu cynlluniau pensiwn seiliedig ar waith, a lleihau'r perygl o greu sefyllfaoedd a all arwain at hawlio iawndal oddi wrth y Gronfa Ddiogelu Pensiynau.

Gallwch gysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn:
Napier House, Trafalgar Place, Brighton. BN1 4DW
Ffôn: 0870 6063636.
Gwefan: http://www.thepensionsregulator.gov.uk

What is the dispute procedure?

If you are dissatisfied with any part of the pension arrangements, you should make your complaint in writing to the Finance Officer, Stipends Section at The Representative Body of the Church in Wales, 39 Cathedral Road, Cardiff. CF11 9XF. If you are not satisfied with the reply from the Finance Officer, a further appeal can be made and this will be considered by the Provincial Secretary. It is the intention that an initial decision will be given within two months of receiving the complaint in writing. Where this is not possible an interim reply will be sent stating the reason for the delay and the expected date of decision. If you are not satisfied with the decision then you may appeal to the appropriate committee of the Representative Body requesting a review of the decision. Further details of the procedures would be provided at the time of the original reply.

What is the Pensions Advisory Service?

In the event of a dispute that cannot be resolved by the Representative Body you may contact the Pensions Advisory Service [TPAS]. TPAS gives free help and advice to members of the public who have problems concerning occupational pensions. TPAS will try to resolve the problem through conciliation and mediation. Where no agreement can be reached, cases may be referred to the Pensions Ombudsman.

You can contact TPAS at:
11 Belgrave Road, London. SW1V 1RB.
Telephone 0845 6012923.
Website: http://www.pensionsadvisoryservice.org.uk/

What is the Pensions Ombudsman?

The Pensions Ombudsman investigates disputes and complaints about the way pension schemes are run. The Pensions Ombudsman's role and powers have been decided by Parliament, and he is appointed by the Secretary of State for Work and Pensions. He is completely independent and acts as an impartial adjudicator. The Pensions Ombudsman's decision is final and binding on all the parties to the complaint or dispute. It can be enforced in the Courts. His decision can only be changed by appealing to the appropriate court on a point of law.

You can contact the Ombudsman at
11 Belgrave Road, London. SW1V 1RB.
Telephone 0207 834 9144.
Website: http://www.pensions-ombudsman.org.uk

What is the Pensions Regulator?

The Pensions Regulator has statutory objectives to protect the benefits of members of work-based pension schemes, promote good administration of work-based pension schemes, and to reduce the risk of situations arising that may lead to claims for compensation from the Pension Protection Fund.

You can contact The Pensions Regulator at:
Napier House, Trafalgar Place, Brighton. BN1 4DW
Telephone: 0870 6063636.
Website: http://www.thepensionsregulator.gov.uk

39 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9XF
ffôn: 029 2034 8200
ffacs: 029 2038 7835

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

39 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9XF
phone: 029 2034 8200
fax: 029 2038 7835